Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr 2022/23

1) Y Corff Llywodraethol

Enw	Categori	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Gorffen
Colin Bell	Awdurdod Lleol (cyfetholedig AR, DTh)	01.01.22	31.12.25
Dafydd Thomas	Awdurdod Lleol	01.05.22	01.05.26
Pip O'Neil	Awdurdod Lleol	06.10.22	06.10.26
Claire Douch	Rhiant	01.12.19	30.11.23
Lynne Roberts	Rhiant	12.11.20	11.11.24
Darren Bruce	Rhiant	06.01.22	05.01.26
Sue Mcginn	Rhiant	06.10.22	06.10.26
Alan Williams	Awdurdod Bach	16.10.20	15.10.24
Carys Griffiths	Sefydledig	01.01.22	31.12.25
*Rob Wardle	Sefydledig	01.01.22	31.12.25
Ailia Lewis	Sefydledig	01.01.22	31.12.25
Holly Edwards	Staff Dysgu	01.01.22	31.12.25
Karen Davies	Staff Atodol	01.01.22	31.12.25
Owain Roberts	Pennaeth (Ex officio)	01.09.19	
*Carol Kelsall	Clerc	27.11.19	

Wedi diswyddo neu dymor wedi dod i ben yn ystod y flwyddyn ysgol 2022-23

Cadeirydd y Llywodraethwyr: Mr Colin Bell, 57 Trearddur Road, Bae Trearddur, Caergybi, LL65 2UE
Clerc y llywodraethwyr: Mrs Carol Kelsall

Etholir rhiant lywodraethwyr gan rieni disgyblion sydd ar gofrestr yr ysgol. Pan fo tymor rhiant fel llywodraethwr yn dod i ben, mae'r ALl yn trefnu i enwebiadau gael eu gwneud, ac yn trefnu pleidlais os oes angen. Mae gan rieni hawl i sefyll i'w hail-hethol cyn belled â bod ganddynt blentyn wedi'i gofrestru yn yr ysgol ar amser yr etholiad.

2) Cyfarfod Rhieni:

Mae hyn yn rhoi cyfle i rieni holi llywodraethwyr am yr Adroddiad Blynyddol neu unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r ysgol ac ynglŷn â sut maent wedi ymgymryd â'u dyletswyddau mewn perthynas â rhedeg yr ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol 2022-23. Bydd y cyfarfod rhieni blynyddol yn cael ei gynnal am **4:30pm ar 1/2/24 yn Ysgol Cybi** os oes o leiaf 30 o rieni plant cofrestredig neu 10% o rieni yn gwneud cais amdano. Byddai'r agenda fel a ganlyn:

i) Croeso gan Gadeirydd y Llywodraethwyr
ii) Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr
iii) Ymatebion y llywodraethwyr i gwestiynau ysgrifenedig a dderbyniwyd
iv) Cynnig unrhyw benderfyniadau i'r CLl eu hystyried erbyn y cyfarfod nesaf.

Os hoffech wneud cais am gyfarfod, ysgrifennwch at y Pennaeth erbyn 18/1/24 fel y gellir gwneud trefniadau addas. Dylid cyflwyno unrhyw gwestiynau'n ysgrifenedig gan gynnwys enw llawn a chyfeiriad y rhiant i Gadeirydd y Llywodraethwyr (drwy'r ysgol) erbyn 18/1/24.

Gellir gwneud cais am gyfarfodydd ar amseroedd eraill yn y flwyddyn ar gais ac yn unol â gweithdrefnau yr amlinellir gan Lywodraeth Cymru. Gall y Pennaeth roi cyngor ar y broses hon. Bydd copi llawn o'r adroddiad hwn yn cynnwys yr atodiadau'n cael ei ddarparu i bob llywodraethwr, ac i unrhyw un arall sy'n gofyn am gopi o'r Adroddiad y Llywodraethwyr i Rieni llawn. Bydd pob rhiant yn derbyn crynodeb o'r adroddiad. (Atodiadau: Dyraniad cyllideb yr ysgol ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23).

Nid oedd cynhigion gan rieni'r llynedd.

3) Ethol Rhiant Lywodraethwyr:
Ar ddiwedd y flwyddyn ysgol 2021-22, diswyddodd Susan Williams o'i rôl ac yna enwebwyd ac etholwyd Sue Mcginn i'r rôl yn cychwyn ar 6/10/22.

4) Datganiad Ariannol:
Mae amlinelliad o gyllideb yr ysgol ynghlwm â'r fersiwn llawn o'r adroddiad hwn ac mae ar gael i'r sawl sy'n derbyn y crynodeb ar gais. Mae hyn yn cynnwys penawdau penodol sy'n dangos ein dyraniad cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol. Mae'r gyllideb ar gyfer 2023/24 wedi cael ei chydbwyso drwy ddefnyddio arian wrth gefn wedi'i gario drosodd.

Yn ystod 2022-23, bu i ddigwyddiadau a drefnwyd gan y staff ynghyd â rhieni gyfrannu cyfanswm o **£8378.45** tuag at ein cronfa ysgol. Defnyddir yr arian hwn wedyn er budd pob disgybl yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol, e.e., adnoddau Addysg Gorfforol, cyfrannu tuag at fysiau moethus ar gyfer tripiau ysgol.

Ni wnaeth yr ysgol unrhyw daliadau i aelodau o'r Corff Llywodraethol am dreuliau yn ystod y flwyddyn ysgol 2022-23.

5) Canlyniadau statudol diweddaraf ac ymateb yr ysgol:
Nid yw cyflwyno canlyniadau diwedd cyfnod allweddol ffurfiol na derbyn data cymharol cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru'n ofynnol bellach.

Yn ystod 2022-23, mae'r ysgol wedi defnyddio ei gweithdrefnau olrhain ei hun yn seiliedig ar brofi cenedlaethol ac asesiad athrawon i adnabod cynnydd da neu well gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws pob ystod oedran.

Bu i bob adnabyddiaeth o berfformiad is na'r disgwyl ac yn enwedig mewn perthynas â chynnydd arwain at drafodaethau proffesiynol, cynllunio dal i fyny a chynllunio effeithiol ochr yn ochr â'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol.

6) Presenoldeb dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf:

2022-23				
	Tymor yr Hydref	**Tymor y Gwanwyn**	**Tymor yr Haf**	**Cyffredinol**
Blwyddyn 1-6	90.1%	90.8%	91.4%	90.8%
Absenoldebau Awdurdodedig	8.1%	6.7%	5.4%	6.8%
Absenoldebau Anawdurdodedig	1.8%	2.5%	3.2%	2.4%

Parhaodd i'r pandemig Covid-19 gael effaith arwyddocaol ar agweddau at bresenoldeb a phrydlondeb yn ystod y flwyddyn academaidd 2022-23.

Gweithiodd yr ysgol yn agos â swyddogion lles y sir i adnabod teuluoedd oedd angen cefnogaeth ychwanegol.

7) Cyrchfan y sawl sy'n gadael yr ysgol:
Trosglwyddodd 65 o ddisgyblion i ysgolion uwchradd ym mis Medi 2023. Trosglwyddodd 57 i Ysgol Uwchradd Caergybi. Trosglwyddodd 6 i Ysgol Uwchradd Bodedern. Trosglwyddodd 1 i Ysgol David Hughes, Porthaethwy. 1 disgybl yn cael ei addysgu o gartref.

8) Camau gweithredu a gymerwyd i ddatblygu cysylltiadau â'r gymuned:

Cymerodd yr ysgol fantais o gyfleoedd oedd ar gael yn ein cymuned leol i drefnu ymweliadau addysgol. Ymysg yr ymweliadau oedd: Canolfan Ucheldre, Eglwys St. Cybi, Porthladd Caergybi, Gorsaf Drenau Caergybi, Canolfan Conwy Ynys Môn ac ymweliad blwyddyn 6 i Ysgol Uwchradd Caergybi. Bu i'r Cyngor Eglwys-Ysgol yr ysgol, sy'n cynnwys disgyblion Cyfnod Allweddol 2 a chynrychiolwyr o Eglwys St Cybi, barhau ei waith yn cefnogi elusennau lleol ac Apêl Uganda Rhyngwladol. Parhaodd carfan newydd o 'Heddlu Bach' Ysgol Cybi eu gwaith ochr yn ochr â'r heddlu lleol mewn digwyddiadau lleol amrywiol yn rhannu gwybodaeth a chyngor ac yn hyrwyddo mentrau lleol pwysig. Rhoddwyd cyfle i grwpiau blwyddyn weithio â rhieni i gynnal digwyddiadau bwth codi arian ar gyfer yr ysgol ac i elusen, e.e., blasu sŵp, disgo Pasg, noson paned a stori. Parhaodd y Swyddog Cyswllt Ysgolion hefyd i weithio â'r ysgol yn ddigidol ac wyneb yn wyneb, gan gynnal sesiynau â disgyblion o flynyddoedd 2-6 yn trafod materion megis diogelwch seiber, bwlio a chadw'n ddiogel yn y gymuned.

9) Targedau presennol yr ysgol:
Nodir y prif flaenoriaethau yn y Cynllun Gwella Ysgol isod:

(i) Gwella safonau'r Gymraeg ar draws pob grŵp oedran.
(ii) Datblygu a sicrhau cysondeb yn y defnydd o arddulliau addysgu effeithiol ar draws yr ystod oedran yn seiliedig ar ofynion a dull gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys y 12 egwyddor addysgeg.
(iii) Datblygu meddylfryd ac isadeiledd ysgol o hunan-wella.
(iv) Cydweithio â'r Awdurdod Addysg Lleol i adolygu a datblygu'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol ysgol gyfan gan sicrhau ei bod yn ymateb yn effeithiol i ofynion pob plentyn.

10) Chwaraeon:
Mae'r ysgol yn cymryd rhan ym mhob cyfle lleol i gystadlu mewn cystadlaethau lleol a darparu rhaglen allgyrsiol helaeth. Yn ystod y flwyddyn ysgol 2022-23, ymysg y cyfleoedd a ddarparwyd oedd – nofio, dawns, hoci, rygbi tag, pêl-fasged, pêl-droed, rhedeg traws gwlad, pêl-rwyd.

Mae'r ysgol yn parhau i ganolbwyntio ar agweddau o iechyd a lles yng ngwaith thematig y dosbarth ac yn ymgorffori meysydd allanol i mewn i brofiadau dysgu dyddiol.

Llwyddiant nodedig yn yr arena chwaraeon yn ystod y flwyddyn ysgol 2022-23 oedd llwyddiannau'r tîm pêl-droed merched yn ennill pob cystadleuaeth ar lefel ddalgylch a sirol ac yn cyrraedd rowndiau terfynol cenedlaethol mewn dau ddigwyddiad.

11) Gweithredu i adolygu polisïau ysgol:
Adolygir pob polisi naill ai'n flynyddol neu fel rhan o gylch tair blynedd ac maent ar gael ar wefan yr ysgol.

12) Dyddiadau tymor ar gyfer y flwyddyn bresennol:

Diwrnod cyntaf tymor yr hydref	01/09/23	Diwrnod olaf cyn y Pasg	22/03/24
Diwrnod olaf cyn yr hanner tymor	27/10/23	Diwrnod cyntaf yn ôl ar ôl y Pasg	08/04/24
Diwrnod cyntaf yn ôl cyn yr hanner tymor	06/11/23	Gŵyl y banc	06/05/24
Diwrnod olaf cyn y Nadolig	22/12/23	Diwrnod olaf yn ôl yn yr ysgol cyn yr ha tymor	24/05/24
Diwrnod cyntaf yn ôl ar ôl y Nadolig	08/01/24	Diwrnod cyntaf yn ôl ar ôl yr hanner tym	03/06/24
Diwrnod olaf cyn yr hanner tymor	09/02/24	Diwrnod olaf yn yr ysgol cyn gwyliau'r ha	19/07/24
Diwrnod cyntaf yn ôl ar ôl yr hanner tymor	19/02/24		

13) Diweddariadau Prosbectws Ysgol:
Mae copïau o'r prosbectws ysgol ar gael i bawb ar wefan yr ysgol. Mae copïau caled hefyd ar gael ar gais. Gwnaed y diwygiadau canlynol i'r fersiwn blaenorol:

- Manylion gweithgareddau allgyrsiol
- Manylion trefniadau dosbarth
- Enwau a chyfrifoldebau staff dysgu'r ysgol.

14) Trefniadau Cwricwlaidd:
Roedd Cwricwlwm i Gymru'n ofyniad statudol i bob ysgol yng Nghymru o fis Medi 2022. Mae'r ysgol wedi cymryd camau i sicrhau bod ei darpariaeth yn unol â chyfeiriad presennol y cwricwlwm tra hefyd yn grymuso disgyblion i wneud penderfyniadau ynglŷn â'u dysgu eu hunain. Yn ystod 2022-23, addysgwyd disgyblion mewn 15 o ddosbarthiadau llawn amser, 2 ddosbarth meithrin rhan amser a dau ddosbarth anogaeth – un ar gyfer pob cyfnod allweddol.

15) Manylion Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yr ysgol:
Mae gan rai plant anghenion ychwanegol y gall fod angen cefnogaeth ychwanegol neu arbenigol ar ryw bwynt yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Weithiau rydym yn ymwybodol o hyn yn gynnar yn ystod amser disgybl gyda ni neu hyd yn oed cyn iddynt gofrestru, tra ar amseroedd eraill codir pryder yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Efallai y bydd rhai anghenion angen mwy o gefnogaeth ac/neu fewnbwn nag eraill. Yn Ysgol Cybi, adnabyddir anghenion dysgu ychwanegol disgyblion gan amlaf gan aelodau o staff dysgu wrth arsylwi eu dysgu, asesu cynnydd ac/neu mewn ymgynghoriad â rhieni, ysgolion blaenorol ac asiantaethau iechyd. Mae ein Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi ei ysgrifennu gydag ystyriaeth o'r Cod Ymarfer Cenedlaethol ADY. Ymgynghorir â rhieni a chânt eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd gyda'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a gwasanaethau cefnogi gan gynnwys adolygiad blynyddol statudol. Cynllunnir y ddarpariaeth ADY yn ofalus i sicrhau ei bod yn cwrdd ag anghenion disgyblion a bod manylion yn cael eu cofnodi a'u monitro mewn Cynlluniau Datblygu Unigol. Ymysg y ddarpariaeth amrywiol a roddwyd yn ystod y flwyddyn ysgol 2022-23 oedd - Iaith a Lleferydd WellComm, dyddiadur dyddiol Cymraeg/Saesneg, addysgu rhifedd yn fanwl, sesiynau PATHS (cefnogaeth emosiynol) yn ogystal â darparu sesiynau 'anogaeth' wedi'u targedu yn ein dosbarthiadau anogaeth.

16) Iaith:
Mae'r mwyafrif o'n disgyblion yn dod o gartrefi ble mai Saesneg yw'r brif iaith a siaredir. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn dilyn polisi iaith Gymraeg yr Awdurdod Lleol drwy asesu plant yn erbyn meini prawf iaith gyntaf fel eu bod yn datblygu i ddod yn ddefnyddwyr hyderus o'r iaith. Rydym yn cael ein dosbarthu fel ysgol Gymraeg, ac mae'r ysgol yn dilyn polisi trochi yn y Gymraeg ar gyfer Meithrin i Flwyddyn 2 ac felly'r Gymraeg yw'r brif iaith a siaredir yn yr ystafell ddosbarth, gyda Saesneg yn cael ei chyflwyno'n ffurfiol ym Mlwyddyn 3. Ar ddiwedd pob blwyddyn ysgol, caiff cynnydd a safonau yn y Gymraeg a'r Saesneg eu hasesu a'u holrhain. Anogir hwyrddyfodiaid sy'n ymuno â ni ar ôl Blwyddyn 3 ac sydd angen cefnogaeth gyda'r Gymraeg i dreulio tymor yn uned Gymraeg y sir sydd wedi'i lleoli ar ein safle ysgol.

17) Lles:
Diogelwch a lles disgyblion yw prif flaenoriaeth yr ysgol, ac rydym yn parhau i weithio'n agos â Swyddog Lles y sir i gefnogi disgyblion a theuluoedd mewn amgylchiadau heriol. Roedd darpariaeth yr ysgol yn cynnwys cefnogi a datblygu pob agwedd o les disgyblion yn ystod y flwyddyn ysgol 2022-23, e.e., sesiynau CELS, cefnogi datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion, darpariaeth gwyliau haf SHEP gan gynnwys prydau iach, darpariaeth cerddoriaeth William Mathias, datblygu sgiliau pwysig a chefnogi lles meddyliol.

Mae gan bob adain o'r ysgol gyfleusterau toiled i'w defnyddio gan y disgyblion. Darperir cyfleusterau cymysg yn yr adran babanod, a chyfleusterau ar wahân ar gyfer plant hŷn. Glanheir y toiledau yn ddyddiol gan staff hyfforddedig.

Derbynnir disgyblion ag anableddau i'r ysgol yn unol â pholisi mynediad yr ALl. Bydd rhai disgyblion oed meithrin yn cael eu gwahodd i fynychu'r uned cyn ysgol ABC ar gyfer asesiad arbenigol cyn cychwyn mewn addysg lawn amser. Cynhelir asesiadau risg a chynlluniau hygyrchedd er budd plant â phroblemau symudedd.

CYLLIDEB 2023/24 YSGOL CYBI BUDGET 2023/24		CYLLIDEB 23/24 OUTTURN BUDGET 23/24	ADDASIADAU ADJUSTMENT	CYLLIDEB TERF 23/24 OUTTURN BUDGET 23/24
EMPLOYEES=	**GWEITHWYR=**	£	£	£
SALARY AND WAGES-	CYFLOGAU-			
TEACHERS	ATHRAWON	1,169,860		1,169,860
SUPPLY TEACHERS-	ATHRAWON LLANW-			
INSURANCE	PREMIWM	54,290		54,290
OTHER SUPPLY	LLANW ARALL	0		0
SPECIAL NEEDS	ANGHENION ARBENNIG	64,850	-64,850	64,850
SUPPORT STAFF-	STAFF ATEGOL-			
SUPPORT STAFF-LUNCHTIME	STAFF ATEGOL-AMSER CINIO	17,050		17,050
TEACHING ASSISTANTS	CYMHORTHYDDION ADDYSGU	176,550		176,550
CLERICAL SUPPORT	CYMORTH GWEINYDDOL	27,560		27,560
CARETAKER	GOFALWR	0		0
ADDITIONAL EDUCATIONAL NEEDS STAFF	STAFF ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL	500,050		500,050
OTHER COSTS-	COSTAU ERAILL-			
ADVERTISING	HYSBYSEBU	1,340		1,340
PREMISES=	**ADEILADAU=**			
REPAIR & MTCE OF BUILDINGS (Local Mgt)	CYNNAL A CHADW ADEILADAU (Rheolaeth Leol)	17,980		17,980
REPAIR & MTCE OF BUILDINGS (Fair Funding)	CYNNAL A CHADW ADEILADAU (Ariannu Teg)	23,770		23,770
ENERGY COSTS-	COSTAU YNNI-			0
ELECTRICITY	TRYDAN	33,520		33,520
GAS / OIL	NWY / OLEW	4,060		4,060
WATER	DWR	4,760		4,760
CLEANING CONTRACT	CYTUNDEB GLANHAU	76,460		76,460
GROUND MAINTENANCE	CYNNAL TIR	11,780		11,780
CLEANING MATERIALS	DEFNYDDIAU GLANHAU	1,390		1,390
FIRE FIGHTING EQUIPMENT	OFFER YMLADD TAN	450		450
RATES	TRETHI	71,280		71,280
SUPPLIES AND SERVICES=	**CYFLENWADAU A GWASANAETHAU=**			
CAPITATION	LWFANS Y PEN	12,300		12,300
FURNITURE	DODREFN	0		0

POSTAGES	POST	380		380
TELEPHONES	FFON	1610		1610
BROADBAND	BAND LLYDAN	2,120		2,120
ICT SUPPORT	CEFNOGAETH TGCh	7,470		7,470
SWIMMING POOLS	PYLLAU NOFIO	6,900		6,900
LIBRARY	LLYFRGELL	5,070	-5,070	0
ARCHIVES	ARCHIFAU	890	-890	0
MUSIC	CERDD	6,490	-6,490	0
ITEMS FOR FURTHER DELEGATION:-	**EITEMAU AR GYFER DATGANOLI PELLACH:-**			
HUMAN RESOURCES AND PAYROLL	ADNODDAU DYNOL A CHYFLOGAU	13,890		13,890
FINANCIAL ADVICE	CYNGOR CYLLIDOL	2,460		2,460
PUPIL INFORMATION	GWYBODAETH DISGYBLION	3,520		3,520
ADMINISTRATIVE (TRANSLATION)	GWEINYDDOL (CYFIEITHU)	740		740
ADMINISTRATIVE (SICKNESS)	GWEINYDDOL (SALWCH)	1,410		1,410
ORDERS, PAYMENTS, INCOME	ARCHEBION, TALIADAU, INCWM	4,990		4,990
ADMINISTER REPAIR & MTCE OF BUILDINGS	GWEINYDDU CYNNAL A CHADW ADEILADAU	5,090		5,090
INTEGRATION - CONTINGENCY	INTEGREIDDIO - CRONFA WRTH GEFN	44,590		44,590
SCHOOL MEALS	CINIO YSGOL	182,080		182,080
TOTAL EXPENDITURE	**CYFANSWM GWARIANT**	**2,559,000**	**-77,300**	**2,481,700**
INCOME	INCWM	48,350		48,350
TOTAL NET BUDGET	**CYFANSWM CYLLIDEB NET**	**2,510,650**	**-77,300**	**2,433,350**
ALLOCATION (not including safety net)	DYRANIAD (heb gynnwys rhwyd diogelu)	2,231,600		2,231,600
LONG TERM DIFFERENCE	**GWAHANIAETH TYMOR HIR**	**-279,050**	**77,300**	**-201,750**
SAFETY NET (+ / -)	RHWYD DIOGELU (+ / -)	0		0
FOUNDATION PHASE GRANT	GRANT CYFNOD SYLFAEN	107,840		107,840
ADD TO RESERVES	YCHWANEGU I ARIAN WRTH GEFN			0
USE OF BALANCES	DEFNYDDIO BALANSAU		93,910	93,910
DIFFERENCE	**GWAHANIAETH**	**-171,210**	**171,210**	**0**

0